



Gwasanaethau Cefnogaeth Ychwanegol



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Gwasanaeth au Cefnogaeth Ychwanegol

Os ydych chi'n byw mewn cynllun gwarchod mae Swyddog Tai Arbenigol/Rheolwr Cynllun yno i'ch cynorthwyo i fyw'n annibynnol ac yn medru trefnu cefnogaeth ychwanegol i chi os oes angen. Os byddwch angen cysylltu â Grŵp Cynefin y tu allan i oriau gwaith arferol eich Swyddog Tai, cysylltwch â'r tîm Gwasanaeth Cwsmer. Os oes argyfwng y tu hwnt i'r oriau swyddfa arferol, neu os nad oes swyddog yn gweithio, rhaid i chi gysylltu â Galw Gofal. Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am y math yma o gartref neu os ydych chi'n meddwl y byddech chi'n elwa o fyw yn y math yma o gynllun, cysylltwch â'ch Swyddog Tai a fydd yn hapus i'ch cynorthwyo chi. Os ydych chi'n byw mewn cynllun tai cysgodol, mae'r wybodaeth yn y llawlyfr hwn yn berthnasol i chi hefyd.

Swyddogion Cefnogi Tenantiaeth

Mae Gorwel yn darparu gwasanaeth arbenigol i denantiaid efo anghenion cefnogaeth penodol yn Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn. Cysylltwch efo'ch Swyddog Tai am fwy o wybodaeth.

Cartrefi i bobl efo anghenion cefnogaeth

Ein nod yw cwrdd ag anghenion cefnogaeth pobl yn ogystal â'u hanghenion tai. Mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol rydym yn darparu tai â chefnogaeth i grwpiau o bobl, yn cynnwys:

- Oedolion efo anableddau dysgu
- Pobl ifanc sengl bregus
- Teuluoedd ifanc bregus
- Pobl efo problemau iechyd meddwl
- Pobl ddigartref
- Pobl sy'n dianc rhag trais yn y cartref
- Pobl efo problemau alcohol a chyffuriau

Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth efo nifer o asiantaethau profiadol sy'n arbenigo mewn darparu gofal a chefnogaeth.

Os ydych chi'n byw mewn cynllun tai cysgodol, mae'r wybodaeth yn y llawlyfr hwn yn berthnasol i chi hefyd.

Pwy yw Gorwel?

Mae Gorwel yn uned fusnes o fewn yr Adran Cymunedau sy'n arbenigo mewn darparu cefnogaeth i bobl sy'n gymwys i dderbyn eu gwasanaethau. Gall hyn gynnwys, ond nid yn unig, tenantiaid Grŵp Cynefin ac eraill a allai fod angen cymorth o dro i dro. Maent yn cynnig gwasanaethau i ddioddefwyr trais yn y cartref, pobl ifanc digartref, digartrefedd yn gyffredinol, cefnogaeth iechyd meddwl a chefnogaeth i bobl hŷn. Cysylltwch â Gorwel ar 0300 111 2122 neu trwy eich Swyddog Tai.

Tai Gofal Ychwanegol

Mae gennym gynlluniau tai gofal ychwanegol i henoed: Disgrifir Tai Gofal Ychwanegol fel byw mewn cynllun lle darperir gofal ar safle 24 awr y dydd. Tai arbenigol ar gyfer pobl hŷn ydyw. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni. Os ydych chi'n byw mewn cynllun tai gofal ychwanegol yna mae'r wybodaeth yn y llawlyfr hwn yn berthnasol i chi hefyd.

Anabledd

Efallai eich bod chi'n cael anhawster ymdopi yn eich cartref ac yn teimlo fod arnoch chi angen cefnogaeth neu addasiadau i'ch cartref. Dylech gysylltu â'ch Swyddog Tai: mae dwy ffordd y gallem gynorthwyo:

- Lle bo'n bosibl gwneud addasiadau i'ch cartref fel eich bod chi'n medru ymdopi, gallwn wneud hyn yn unol ag argymhellion Therapydd Galwedigaethol yr Awdurdod Lleol drwy grant penodol gan Lywodraeth Cymru. Gall y Gymdeithas wneud rhai mân addasiadau.
- Eich cynorthwyo chi i ystyried dewisiadau eraill, yn cynnwys symud i fyw, os ydych chi'n dymuno.

